# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

## Cyngor ar fynd adre o'r ysbyty ar ôl torri asgwrn 'torus buckle'.

- Mae eich plentyn wedi torri asgwrn 'torus buckle' yn ei arddwrn.
- Dyma'r math mwyaf cyffredin o dorasgwrn ymysg plant ifanc.
- Mae asgwrn ifanc yn dal yn feddal ac yn hyblyg iawn. Am y rheswm hwn, yn hytrach na thorri'r asgwrn yn gyfan, mae crac bach neu ginc ar un ochr o'r asgwrn.
- Mae'r math hwn o anaf yn gwella yn dda iawn gyda sblint hawdd i'w osod yn hytrach na chyda plaster anhwylus.
- Mae'r rhan fwyaf o'r anafiadau hyn yn gwella yn berffaith iawn os yw'r claf yn gwisgo sblint am 3 wythnos.
- Mae'n bwysig rhoi dos priodol o Parasetamol neu Ibuprofen i'ch plentyn i leddfu'r boen gan y bydd yn dal yn boenus am gyfnod byr, hyd yn oed ar ôl gosod y sblint.
- Gellir tynnu'r sblint a'r gyfer mynd i'r bath neu i gael cawod heb berygl i'r toriad.
- Ar ôl tair wythnos, os ydy'r arddwrn ychydig yn boenus neu'n stiff o'i symud, gellir ail-osod y sblint er mwyn gwneud y claf yn fwy cyffyrddus. Gwnewch hyn am gyfnodau byr yn unig gan ei bod hi'n well eich bod yn dechrau defnyddio rhywfaint ar y fraich mor normal â phosibl o hyn ymlaen. Defnyddiwch boen laddwr fel Parasetamol neu Ibruprofen os oes angen.
- Wedi dweud hynny, ar ôl tair wythnos, os ydy'r arddwrn yn dal yn boenus, wedi chwyddo neu dyw'r plentyn ddim yn awyddus i'w ddefnyddio, cysylltwch â'r Clinig Asgwrn i drefnu apwyntiad arall .
- Os yw'r plentyn yn tynnu'r sblint cyn pen y tair wythnos ac yn ymddangos i fod yn gyffyrddus ac yn gallu defnyddio ei fraich, yna does dim rheswm i'w orfodi i wisgo'r sblint am y tair wythnos llawn.
- Mae'n well osgoi chwaraeon a chwarae gwyllt wrth wisgo'r sblint ac am yr wythnos neu ddwy gyntaf ar ôl ei dynnu.
- Os oes gennych unrhyw bryderon neu bryderon ar ôl cael eich rhyddhau o'r ysbyty, cysylltwch â: 07786 113057. Mae hwn yn wasanaeth dydd Llun i ddydd Gwener a byddwn yn ceisio cysylltu â chi cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, os yw'n argyfwng, ewch yn ôl i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i gael rhagor o gyngor / triniaeth.



**Os oes gennych unrhyw bryderon ar ôl gadael yr ysbyty, ffoniwch 01633 234858 or 234891**

ABUHB/PIU:1146/4 – Mehefin 2020
Dyddiad Dod i ben: Gorffennaf 2022